

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022

Week of Prayer for Christian Unity 2022

Mae'r geiriau a glywch yn y gwasanaeth mewn teip arferol, efo cyfieithiadau yn dilyn mewn italics. Mae'r geiriau sydd i'w cyd-adrodd mewn print tywyll.

Mae gwahanol rannau'r gwasanaeth wedi eu rhifo, gan obeithio bydd hyn yn help i'w ddilyn. Mae'n werth nodi bod y geiriad Cymraeg a Saesneg yn gwahaniaethu yma ac acw. Rydym wedi ceisio cadw cyn agosed â phosibl at ddeunydd gwreiddiol eglwysi'r Dwyrain Canol.

The words that you will hear read out in the service are in regular type with translations italicized in the brackets following. Any words we are all invited to read will be in bold type.

We have numbered the different parts of the service in the hope that it will help people as they follow the service. The Welsh and English material that we have been provided with does not always coincide, so please bear that in mind as we go through the service. We have tried to be as true as we can to the original material from the Middle Eastern churches.

1. Croeso / Welcome: Rev'd Elwyn Richards & Rev'd Nick Sissons

2. Cyflwyniad a galwad i addoli / Introduction and welcome to worship

2a. Mae'r gweddiau heno wedi eu hysbrydoli gan Eglwysi y Dwyrain Canol – credinwyr sy wedi eu cysylltu yn ddaearyddol i hanes y Doethion. Mae'r Doethion yn dangos i ni undeb y cenhedloedd, fel mae Duw yn ei ddymuno. Maent yn teithio o wledydd pell, ac yn hanu o ddiwylliannau gwahano. Maent wedi eu tanio gan yr un dyhead -i weld ac adnabod y brenin newydd-anedig. Mae eu taith yn eu harwain at gartref bychan ym Methlehem, lle maent yn syml iawn yn rhoi mawl ac yn offrymu rhoddion. Yn ein cymdeithas aml-ddiwylliannol ni, gallwn weld cyfoeth gwahanol draddodiadau.

(Today our prayer inspiration comes from the churches in the Middle East – that part of the Body of Christ geographically linked to the story of the coming of the Magi. The Magi reveal to us a unity of nations as desired by God. They travel from far-off countries and from different cultures, driven by the same hunger to see and know the new born king. This leads them to gather in the little house in Bethlehem for the simple act of giving homage and offering gifts. In our own multi-cultural society we can see some expressions of that rich variety.)

2b. At this time of year, some of us may feel we have moved on in our worship from the crib and the story of the coming of the Magi from the East. But our sisters and brothers in the Middle East invite us to focus on this story anew. Uniting with them and journeying again with the Magi, may our time together allow us to come face-to-face with our God in Christ. May our worship bring a sense of joy and wonder and allow us to respond as we go on further in our own journey of faith. Let us come into God's presence with thanksgiving and joy.

(Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, bydd llawer ohonom wedi symud ymlaen yn ein haddoliad o hanes ymweliad y Doethion o'r Dwyrain. Ond mae'r eglwysi yn y Dwyrain Canol yn ein gwahodd i ganolbwyntio ar y stori honno. Trwy uno â hwythau a theithio eto gyda'r Doethion, boed i'n hamser gyda'n gilydd ganiatáu i ni ddod wyneb yn wyneb â'n Duw yng Nghrist. Boed i'n haddoliad ddod ag ymdeimlad o lawenydd a rhyfeddod a chaniatáu i ni ymateb wrth i ni gamu ymlaen ymhellach ar ein taith ninnau mewn ffydd. Gadewch i ni ddod i bresenoldeb Duw gyda diolchgarwch a llawenydd.)

3. Emyn: Ganol gaeaf noethlwm / Hymn: *In the Bleak midwinter*

- Al Lewis, Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd / Al Lewis, Llandaff Cathedral, Cardiff

https://www.youtube.com/watch?v=a5_dOsYgrhQ

*You are invited to mute yourselves and join in the singing of this carol in Welsh if you wish.
Fe'ch gwahoddir i ddiffodd y sain ('mute'), ac ymuno i ganu'r garol yma.*

Ganol gaeaf noethlwm
cwynai'r rhewynt oer,
ffridd a ffrwd mewn cloeon
llonydd dan y lloer:
eira'n drwm o fryn i dref,
eira ar dwyn a dôl,
ganol gaeaf noethlwm
oes bell yn ôl.

Metha nef a daear
gynnwys ein Duw;
ciliant hwy a darfod
pan fydd ef yn llyw:
ganol gaeaf noethlwm
digon beudy trist
i'r Arglwydd hollalluog,
lesu Grist.

Beth a roddaf iddo,
llwm a thlawd fy myd?
Pe bawn fugail rhoddwn
gorau'r praidd i gyd;
pe bawn un o'r doethion
gwnawn fy rhan ddi-goll;
ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.

CHRISTINA ROSSETTI, 1830-94

cyf. SIMON B. JONES, 1894-1964

Defnyddir y geiriau Cymraeg drwy ganiatâd Jon Meirion Jones

*(1. In the bleak midwinter
frosty wind made moan,
earth stood hard as iron,
water like a stone;
snow had fallen, snow on snow,
snow on snow,
in the bleak midwinter, long ago.*

*2. Our God, heav'n cannot hold him
nor earth sustain;
heav'n and earth shall flee away*

when he comes to reign.
In the bleak midwinter
a stable-place sufficed
the Lord God almighty, Jesus Christ.

3. What can I give him,
poor as I am?
If I were a shepherd
I would bring a lamb;
if I were a wise man
I would do my part,
yet what I can I give him:
give my heart.)

4. Gweddio mewn Mawl a Chyffes / Prayer of Praise and Confession

4a. We glorify you, O Lord, creator of heaven and earth, for you have set the lights in the vault of the sky. You separated light from darkness and arranged signs to mark sacred times, and days and years. You studded the firmament with stars. How majestic are your works, the heavens declare your glory and the skies proclaim the work of your hands!

We glorify you, O Lord.

*(Gogoneddwn di, O Arglwydd, Creawdwr y nefoedd a'r ddaear, gan i ti osod y goleuadau yn uchder y ffurfafen. Gwahanaist y goleuni oddi wrth y tywyllwch a threfnu arwyddion i nodi adegau cysegredig, a'r dyddiau a'r blynyddoedd. Llenwaist yr wybren â sêr. Mor ardderchog yw dy weithredoedd – mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant a'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo!
Gogoneddwn di, O Arglwydd.)*

4b. Molwn di am na wnaethost ein gwrthod, er gwaethaf ein gwrthryfel, ond yn hytrach anfon dy Fab i oleuo ein tywyllwch ac i fod i ni'n oleuni ac yn iachawdwriaeth. Ynddo ef oedd bywyd a'r bywyd hwnnw oedd goleuni'r holl ddynoliaeth. Ac mae'r goleuni'n llewyrchu yn y tywyllwch.

Molwn di, O Arglwydd

(We praise you for you did not abandon us despite our rebellion but sent your Son to brighten our darkness and be our light and our salvation. In him was life, and that life was the light of all humanity. And the light shines in the darkness.

We praise you, O Lord)

4c. We worship you, O Lord, for you accompany us in the chaos of our life through the power of your Holy Spirit. You light up our paths and give us wisdom and faith in a world of untruth and doubt.

We worship you, O Lord.

*(Addolwn di, O Arglwydd, oherwydd rwyd ti gyda ni yn anhrefn ein bywydau, drwy nerth dy Ysbryd Glân. Rwyd yn llusern i'n llwybrau ac yn rhoddi i ni ddoethineb a ffydd mewn byd o anwiredd ac amheuan.
Addolwn di, O Arglwydd.)*

4d. Diolchwn i ti, O Arglwydd, am i ti ein hanfon i'r byd i fod yn dystion i'r goleuni hwnnw yn ein hamrywiol eglwysi a'n gwahanol ddiwylliannau ac i gyhoeddi'r Newyddion Da am Iesu, yr unig wir Frenin, gan gynnig ein hunain iddo.

Diolchwn i ti, O Arglwydd.

*(We thank you, O Lord, for you send us into the world to witness to this light, in our various churches and diverse cultures, and to proclaim the Good News of Jesus, the one true King, offering ourselves to him.
We thank you, O Lord.)*

4e. May all the peoples bow before you and worship you. We have often preferred darkness, but you have given us light. Therefore, we come to you confessing our sins and saying:

**We confess that we have turned from your ways.
We have harmed your good creation through our greed.
We have polluted and poisoned the air, earth and waters, destroying habitats and species.**

Lord have mercy.
Christ have mercy

(Bydded i'r holl bobloedd ymgrymu ger dy fron a'th addoli. Yn aml bu'n well gennym y tywyllwch, ond rhoddaist i ni oleuni. Gan hynny, deawn atat gan gyffesu ein pechodau a dweud:

***Cyffeswn ger dy fron i ni grwydro oddi ar dy lwybrau.
Rydym wedi anharddu dy greadigaeth drwy ein trachwant.
Rydym wedi llygru a gwenwyno'r awyr, y tir a'r dyfroedd, gan ddistrywio cynefinoedd a rhywogaethau.***

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.)

4f. Rydym wedi ymdrin yn hunanol â'n brodyr a'n chwiorydd. Rydym wedi caniatáu i'n hanghenion a'n dymuniadau ninnau fynd yn drech na'n hymrwymiad i gynnal cyfiawnder. Rydym wedi adeiladu muriau rhyngom ac wedi plannu hadau diffyg ymddiriedaeth.

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.

(We have acted selfishly towards our brothers and sisters. We have put our own needs and desires above our commitment to justice. We have built walls between us and planted seeds of mistrust.

Lord have mercy.
Christ have mercy.)

4g. We have divided people based on ethnicity and culture, discriminating instead of celebrating difference. We have waged war, claiming Jesus for our side.

Lord have mercy.
Christ have mercy.

(Rydym wedi gwahanu pobl ar linellau ethnig a diwylliannol, gan gamwahaniaethu yn lle dathlu ein gwahaniaethau. Rydym wedi rhyfela, gan fynnu bob tro bod Iesu ar ein hochr ni.

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.)

4h. Maddau'r holl feddyliau a'r gweithredoedd hyn, O Arglwydd, wrth i ni ddod mewn edifeirwch ger dy fron.

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.

(Forgive all these thoughts and deeds, O Lord, as we come before you in repentance.

*Lord have mercy.
Christ have mercy.)*

4i. Almighty God, Father of our Lord Jesus Christ, whom you have sent in the fullness of time to redeem all people, we ask you to have mercy on us, forgive us our sins and transform us into his glorious image so we can shine as a beacon of hope in our troubled world.

Lord have mercy.
Christ have mercy.

(Hollalluog Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, y bu i ti ei anfon yng nghyflawnder yr amser i achub yr holl bobl, deisyfwn arnat i drugarhau wrthym, i faddau i ni ein pechodau ac i'n trawsnewid i'w ddelw ogoneddus ef, fel y gallwn ddisgleirio fel llusern gobaith yn ein byd trallodus.

Arglwydd, trugarha.
Crist, trugarha.)

4j. Mae'r Duw Hollalluog yn gwranddo ein gweddïau, yn trugarhau wrthym ac yn maddau ein pechodau.

Diolch a fo i Dduw, yr hwn a folwn â'n holl leisiau. Amen.

*(Almighty God hears our prayers,
has mercy on us and forgives our sins.*

Thanks be to God, whom we praise with all our voices. Amen)

5. Myfyrio ar hanes y Doethion / Reflecting on the story of the Magi

Edrychwn rwan ar ddarn o Efengyl Mathew, mewn pum rhan. Mae pob rhan yn cynnwys myfyrdod byr ar un agwedd o'r hanes, ac yna ymateb i bawb ei gyd-lefaru.

We now take a look at the passage from Matthew, which has been split into five short sections. Each section includes a short reflection on one aspect of the story, and a response in bold for everyone to share.

5a. During this service we'll be listening to the words of Matthew 2:1-12. Let's pay attention to the beginning of that story:

In the time of King Herod, after Jesus was born in Bethlehem of Judea, wise men from the East came to Jerusalem, asking, "Where is the child who has been born king of the Jews? For we observed his star at its rising, and have come to pay him homage."

Reflection: The Magi saw the star and were so moved by its appearing that they left everything and crossed the world to follow it, to find the child to whom the star pointed.

In our own lives, God invites us, too, to follow. If you have got a star with you hold it now. As we hold our stars, let's take time to remember our own personal journeys towards Jesus, towards discipleship. Perhaps there was an event or a person who in our lives inspired us, a moment when we, too, were moved to follow God's invitation. Some of us will notice more than one star, more than one invitation, all leading to a deeper relationship with Jesus. Let your star hold the memory of your particular guiding light. And if you can't identify a star, perhaps your star can reflect your simple desire to come closer to God...

Glory be to you Father Almighty, for you have revealed yourself through your creation and invited all people to gather in your presence. We have seen the star of Jesus in our lives and have come to worship him just as the Magi did. We offer him ourselves today and we ask for the presence of the Holy Spirit among us. As we pray today for the unity of the Church, may we and our communities also be lights that guide others to Jesus the Saviour.

Unite us as we come from every corner of our community to worship you, our heavenly king. Amen.”

(Yn ystod y gwasanaeth hwn byddwn yn gwrandao ar eiriau Mathew 2:1-12. Gwrandawn ar ddechrau'r hanes hwnnw:

Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem a holi, 'Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli.'

Arweinydd: *Gwelodd y Doethion y seren ac ymateb i'w hymddangosiad drwy adael popeth a theithio'r byd i'w dilyn, er mwyn darganfod y plentyn yr oedd y seren yn eu tywys tuag ato.*

Yn ein bywydau ein hunain, hefyd, mae Duw yn ein gwahodd ninnau i ddilyn. Os oes gennych seren yn ymyl, daliwch hi rwan. Wrth i ni ddal ein sêr, gadewch i ni oedi i gofio ein taith bersonol ein hunain tuag at Iesu, tuag at ddod yn ddisgybl iddo. Efallai fod digwyddiad neu unigolyn wedi ein hysbrydoli, neu adeg benodol pan gawsom ninnau, hefyd, ein hysgogi i ddilyn gwahoddiad Duw. Bydd rhai ohonom yn sylwi ar fwy nag un seren, mwy nag un gwahoddiad, i gyd yn arwain at berthynas ddyfnach â Iesu. Gadewch i'ch seren gynrychioli eich seren arbennig chi. Ac os na allwch feddwl am seren yn eich bywyd chi, efallai y gall eich seren gynrychioli eich awydd i ddod yn nes at Dduw...

Gogoniant i ti, Dad Hollalluog, gan i ti ddatguddio dy hun drwy dy greadigaeth a gwahodd yr holl bobloedd i sefyll yn dy bresenoldeb. Gwelsom seren Iesu yn ein bywydau ac rydym wedi dod i'w addoli yn union fel y gwnaeth y Doethion. Cyflwynwn ein hunain iddo heddiw a gofynnwn am bresenoldeb yr Ysbryd Glân yn ein plith.

Wrth i ni weddio heddiw am undod yr Eglwys, bydded i ni a'n cymunedau fod yn oleuadau sy'n arwain eraill at Iesu'r Gwaredwr.

Una ni â'n gilydd wrth i ni ddod o'r Gogledd ac o'r De, o'r Dwyrain ac o'r Gorllewin, yn hen ac ifanc, dynion a merched, i blygu ger dy fron a'th addoli, ein brenin nefol. Amen.)

5b. Mathew 2, adnodau 3 i 6:

A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef. Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni. Eu hateb oedd, 'Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd:

**“A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda,
nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda,**

canys ohonot ti y daw allan arweinydd
a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.””

Arweinydd: Cyrhaeddodd y rhai sy'n ceisio'r brenin newydd hyd Jerwsalem dan arweiniad rhyfeddod y bydysawd. Er mwyn canfod pen eu taith, fodd bynnag, maent angen cymorth pobl eraill, ac arweiniad a goleuni'r Ysgrythurau. Maent yn darganfod bod Gair Duw 'yn llusern i'm troed, ac yn oleuni i'm llwybr.' [Salm 119:105]...

Arglwydd, rhoddwn i ti ddiolch a mawl
am y rhai a'n cynorthwyodd ar ein taith;
y rhai a'n cadwodd ni ar ffordd daioni
ac felly ein cynorthwyo i'th ddarganfod di.

Addolwn di, O Arglwydd,
oherwydd rwyt ti gyda ni drwy anhrefn ein bywydau
drwy nerth dy Ysbryd Glân.
Rwyd yn llusern i'n llwybrau
ac yn rhoi i ni ddoethineb a'r gallu i ymddiried
mewn byd o anwiredd ac amheumon.

(Matthew 2, verses 3 to 6:

When King Herod heard this, he was frightened, and all Jerusalem with him; and calling together all the chief priests and scribes of the people, he inquired of them where the Messiah was to be born. They told him, "In Bethlehem of Judea; for so it has been written by the prophet:

*And you, Bethlehem, in the land of Judah,
are by no means least among the rulers of Judah;
for from you shall come a ruler
who is to shepherd my people Israel.””*

Reflection: The seekers have come so far guided by the splendour of the universe. But to find their final destination, they need the help of others and the guidance and insight of the Scriptures. They discover that God's word "is a lamp to my feet and a light to my path". [Psalm 119:105]...

*“Lord, we thank you
For those who have helped us on our journey
that led to you.*

*Lord, we worship you
For lighting our path through chaos and doubt
by your Holy Spirit.”)*

6. Emyn: 'Nouhro Dnah l'Zadiqé' أشرق النور على الأبرار / Hymn: 'Song of Light' written in Aramaic by Saint Ephrem of Syria, 306 – 373

Fe'ch gwahoddir i wrando'n weddigar ar y gân hon yn yr iaith wreiddiol: mae cyfieithiad Saesneg o'r geiriau isod.

We invite you to listen prayerfully to this song in its original language; there is an English translation below

<https://www.youtube.com/watch?v=-6tOmVcKS4s>

St Ephrem's Song of Light

*The Light of the just and joy of the upright is Christ Jesus our Lord.
Begotten of the Father, he manifested himself to us.
He came to rescue us from darkness
and to fill us with the radiance of his light.
Day is dawning upon us; the power of darkness is fading away.
From the true Light there arises for us
the light which illumines our darkened eyes.
His glory shines upon the world
and enlightens the very depths of the abyss.*

*Death is annihilated, night has vanished,
and the gates of Sheol are broken.
Creatures lying in darkness from ancient times are clothed in light.
The dead arise from the dust and sing because they have a Saviour.
He brings salvation and grants us life.
He ascends to his Father on high.
He will return in glorious splendour
and shed his light on those gazing upon him.*

7. Myfyrio ar Hanes y Doethion / Reflecting on the story of the Magi/

7a. Matthew 2, verses 7 and 8:

Then Herod secretly called for the wise men and learned from them the exact time when the star had appeared. Then he sent them to Bethlehem, saying, "Go and search diligently for the child; and when you have found him, bring me word so that I may also go and pay him homage."

Reflection: On our journey, at times we have to encounter people who do not have good intentions. The Magi were asked to meet with Herod in the secretive corridors of power. Herod wants only to protect his own interests and ultimately to destroy whatever he sees as threatening them. We too have to contend with voices and messages that pretend to respect the good, but end up being destructive...

"Lord, we have caused enormous damage to the earth, our common home, by endlessly using its resources. At times too, we will allow our selfish wishes to stifle any real commitment to seeking justice preventing the poorest from enjoying even the most basic things that give people dignity. Like Herod, we try to protect our palaces and plant the seeds of mistrust. Lord, break down our darkness with light. In the midst of the many messages that continually reach us, help us not to lose our way.

(Matthew 2, adnodau 7 i 8:

Darllenydd: Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos. Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, 'Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli.'

Arweinydd: Ar ein taith, weithiau byddwn yn dod ar draws pobl nad yw eu bwriadau'n dda. Mae'r Doethion yn cyfarfod â Herod yng nghyfrinachedd coridorau grym. Diogelu ei fuddiannau ei hun yw unig fwriad Herod, ac yn y pen draw dinistrio unrhyw beth mae'n ei ystyried yn fygythiad i'r buddiannau hynny.

Rhaid i ninnau hefyd ymdrin â lleisiau a negeseuon sy'n honni parchu'r hyn sydd dda, ond sydd yn y pen draw yn ddinistriol...

Arglwydd, rydym wedi achosi niwed enfawr i'r ddaear, ein cartref cyffredin, drwy ddefnyddio ei hadnoddau'n ddiddiwedd. Ar adegau hefyd, byddwn yn caniatáu i'n dymuniadau hunanol fygu unrhyw wir ymrwymiad i geisio cyfiawnder, gan atal y tlotaf rhag mwynhau hyd yn oed y pethau mwyaf sylfaenol sy'n rhoi urddas i bobl. Fel Herod, rydym yn ceisio amddiffyn ein palasau ac yn plannu hadau drwgdybiaeth. Gelli di, Arglwydd, chwalu ein tywyllwch â'th oleuni. Yng nghanol y llu o negeseuon sy'n ein cyrraedd yn barhaus, cynorthwya ni i beidio colli'n ffordd.)

7b. Matthew 2, adnodau 9 i 10:

Wedi gwrandao ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn. A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben.

Arweinydd:

Dduw ein Tad nefol, rhoddwn ddiolch i ti am y rhodd o lawenydd yn ein bywydau ni ein hunain ac ym mywydau pawb sy'n d'adnabod ac yn dy garu. Rhoddwn ddiolch hefyd am bawb nad ydynt eto wedi deall mai tydi yw ffynhonnell pob llawenydd ond y mae eu llawenydd eisoes yn eu harwain i fyw bywydau gwell a mwy haelionus. Gweddïwn, wrth i ni deithio tuag at nod undod Cristnogol, y bydd ein bywydau gyda'n gilydd yn dystiolaeth loyw a llawen sy'n arwain eraill i ddod i adnabod Crist.

Diolch a fo i Dduw, a folwn â lleisiau llawen.

(Matthew 2: verses 9 to 10

When the wise men had heard the king, they set out; and there, ahead of them, went the star that they had seen at its rising, until it stopped over the place where the child was. When they saw that the star had stopped, they were overwhelmed with joy.

Reflection:

God our heavenly Father, we give you thanks for the gift of joy in our own lives and in the lives of all who know and love you. We pray that as we journey towards the goal of Christian unity, our lives together may give a luminous and joyful witness that leads others to know Christ.

We praise God, united in joy.)

7c. Matthew 2, verses 11 and 12

On entering the house, they saw the child with Mary his mother; and they knelt down and paid him homage. Then, opening their treasure chests, they offered him gifts of gold, frankincense, and myrrh. And having been warned in a dream not to return to Herod, they left for their own country by another road.

Reflection: They enter the little house and see face to face the one their hearts were seeking. They worship and, opening their treasures, offer their gifts. Having encountered the Saviour, the Magi return to their countries by a different way. Similarly, may the communion we share in our prayer together inspire us to return to our lives, our churches and our world by new ways, changed by meeting the Lord....

We praise you, Lord, for the different gifts you have given to your people to share with the world and for the ways you send us out on new journeys by untrodden paths.

(Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr. Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

Darllenydd: Maent yn mynd i mewn i'r tŷ, ac yn gweld, wyneb-yn-wyneb, yr un roeddynt yn geisio a'u holl galon. Maent yn ei addoli, yn agor eu trysorau, ac yn cynnig eu rhoddion. Wedi cyfarfod y Gwardwr maent yn dychwelyd i'w gwledydd ar hyd ffordd arall. Yn yr un modd, boed i'r gymdeithas a rannwn yn ein gweddïau gyda'n gilydd, ein hysgogi i ddychwelyd i'n bywydau, i'n heglwysi ac i'n byd, ar hyd ffyrdd newydd, wedi ein newid drwy gyfarfod yr Arglwydd.

Addolwn Di, Arglwydd, am y gwahanol roddion rwy'ti wedi rhoi i dy bobl, er mwyn iddyn nhw eu rhannu gyda'r byd; ac am y ffyrdd rwy'ti'n ein hanfon ni allan ar deithiau newydd ac ar lwybrau diarth.

8. Rhannu Goleuni Crist / Sharing Christ's Light

8a. Wrth i ni gyrraedd ein gweddïau olaf gyda'n gilydd, dyma wahoddiad i chi ddiffodd y golau yn eich stafell, a chynnu cannyll. Os yn bosibl, codwch y gannwyll fel bod pawb yn gallu ei weld ar y sgrîn.

(As we enter our final prayers together, we invite you to dim the lights in your own room and to light a candle. If it is possible try to hold or place your candle so that it is visible to other worshippers on your screen.)

8b. As the Magi followed a light to Bethlehem, so we light our own lights, uniting our own gifts and prayers for the visible unity of the Church. As we journey towards that goal, may our lives together give a luminous witness that leads others to know Christ.

Fel y dilynodd y Doethion olau i Fethlehem, rydym ninnau'n cynnu ein goleuadau, gan uno ein rhoddion a'n gweddïau am undod gweladwy yr Eglwys. Wrth i ni deithio tuag at yr amcan hynny, boed i'n bywydau ni ynghyd, dystio'n loyw, gan arwain eraill i dy adnabod di.

9. Ymbiliau / Prayers of Intercession

*9a. Mewn ffydd a hyder, deunw mewn gweddi gerbron Duw, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân: Daeth y Doethion o'r Dwyrain i addoli Iesu ac i gyflwyno rhoddion arbennig o'u diwylliannau a'u gwledydd. Gweddiwn heddiw dros yr holl gymunedau Cristnogol ledled y byd yn eu hamrywiol ddulliau addoli a'u traddodiadau: Arglwydd, gofynnwn i ti warchod y trysorau hynny, yn enwedig mewn rhannau o'r byd lle mae trais a gormes yn bygwth presenoldeb a pharhad yr Eglwys. **Arglwydd, clyw ein gweddi.***

*(With faith and confidence, we come in prayer, before God, who is Father, Son and Holy Spirit: The Magi came from the East to pay homage and offer special gifts from their cultures and countries. We pray today for all Christian communities around the world in their diversity of worship and tradition: Lord we ask you to preserve these treasures, particularly in areas of the world where the presence and survival of the Church is threatened by violence and oppression. **O, Lord hear our prayer**)*

9b. The early years of the Lord's life were marked by violence and massacres at the orders of the despot Herod. We pray for children living in places in the world where violence continues and where its results are tangible. Strengthen, O Lord, the bonds of unity and mutual love among our churches and help us to cooperate and witness to your holy Name. Inspire us to work without ceasing in order to defend the oppressed and include the marginalized. Encourage us to stand together in the face of tyranny and oppressive regimes as we seek your Kingdom among us.

O, Lord, hear our prayer

(Gwelodd blynyddoedd cynnar bywyd yr Arglwydd drais a lladdfeydd dan orchymyn y gormeswr Herod. Gweddiwn dros blant sy'n byw mewn rhannau o'r byd lle mae trais yn teyrnasu a lle mae ei effeithiau'n amlwg: Cryfha, O Arglwydd, rwymau undod a chariad rhwng ein heglwysi a chynorthwya ni i gydweithio ac i dystio ynghyd i'th Enw sanctaidd. Ysbrydola ni i weithio'n ddi-baid i amddiffyn y rhai sydd dan ormes ac i gynnwys y rhai a wthiwyd i'r ymylon. Ysgoga ni i sefyll ynghyd yn wyneb gorthrwm a llywodraethau gormesol wrth i ni geisio dy Deyrnas yn ein plith.

Arglwydd, clyw ein gweddi.)

9c. Yn dilyn ymweliad y Doethion, bu raid i'r Teulu Sanctaidd fudo drwy'r anialwch a dod yn ffoaduriaid yn yr Aifft. Gweddiwn dros yr holl ffoaduriaid a'r rhai sydd wedi'u dadwreiddio yn y byd hwn: Rho i ni'r adnoddau, Arglwydd, i gynnig lletygarwch i'r rhai a yrrwyd o'u cartrefi a phlanna ynom ysbryd croesawu'r rhai sy'n ceisio hafan ddiogel.

Arglwydd, clyw ein gweddi.

(After the visit of the Magi, the holy family experienced migration through the wilderness and became refugees in the land of Egypt. We pray for all the refugees and uprooted people in this world: Equip us, Lord, to show hospitality to those driven from their homes, and grant us the spirit of welcome to those looking for a safe haven.

O, Lord, hear our prayer)

9d. The birth of Jesus was good news for all, gathering people from different nations and religions in worship of the holy child. We pray for our efforts to seek harmony and dialogue with other religions: Lord, give us humility and patience to walk with others with respect on their journey.

O, Lord, hear our prayer

(Roedd geni Iesu'n newyddion da i bawb, gan ddod â phobl o wahanol genhedloedd a chrefyddau ynghyd i addoli'r plentyn sanctaidd. Gweddiwn ynghylch ein hymdrechion i geisio cytgordd a deialog gyda chrefyddau eraill: Arglwydd, rho i ni'r gwyleidd-dra a'r amynedd i gyd-gerdded gyda pharch ag eraill ar eu taith.

Arglwydd, clyw ein gweddi.)

9e. Dychwelodd y Doethion adref ar hyd ffordd arall. Gweddiwn dros ein heglwysi yn y byd cyfnewidiol hwn: Arglwydd, cynorthwya ni i ganfod ffyrdd newydd a chreadigol i'th ddilyn di ac i dystio i ti fel y bydd i'r byd gredu.

Arglwydd, clyw ein gweddi.

(The Magi returned to their home by a different way. We pray for our churches in this changing world: Lord, help us to find new and creative ways to follow you and to witness to you so that the world may believe.

O, Lord, hear our prayer)

9f. When the Magi saw the holy child, they rejoiced with great joy. Heavenly Father, fix our eyes on him so we do not lose our way. Unite us in the Lord Jesus, who is the way, the truth, and the life, and who has taught us to pray, saying:

Our Father in heaven...

(Pan welodd y Doethion y plentyn sanctaidd, roeddent yn llawen dros ben.

Dad Nefol, cadw ein llygaid arno eif fel na fyddwn yn colli'n ffordd. Una ni yn yr Arglwydd Iesu, y ffordd, y gwirionedd a'r bywyd, yr hwn a'n dysgodd i weddio gan ddweud:

Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd...)

10. Emyn: / Hymn: Shine Jesus Shine

Fe'ch gwahoddir i ddiffodd y sain ('mute'), ac ymuno i ganu'r emyn yma yn Saesneg

You are invited to mute yourselves and join in the singing of this hymn in English if you wish

1. Lord, the light of your love is shining
In the midst of the darkness, shining;
Jesus, Light of the World, shine upon us,
Set us free by the truth you now bring us,
Shine on me, shine on me.

*Shine, Jesus, shine,
Fill this land with the Father's glory;
Blaze, Spirit, blaze,
Set our hearts on fire.
Flow, river, flow,
Flood the nations with grace and mercy;
Send forth your word, Lord,
And let there be light.*

2 Lord, I come to your awesome presence,
From the shadows into your radiance;
By the blood I may enter your brightness,
Search me, try me, consume all my darkness.
Shine on me, shine on me.

Chorus

3 As we gaze on your kingly brightness,
So our faces display your likeness,
Ever changing from glory to glory:
Mirrored here, may our lives tell your story:
Shine on me, shine on me.

Chorus

Graham Kendrick (1950-) © 1987 Make Way Music

*Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria,
trech na'r t'wyllwch, yn glir ddisgleiria;
Iesu, goleuni'r byd, cofia ninnau,
ti yw'r gwir a'n rhyddha o'n cadwynau:
Grist, clyw ein cri, goleua ni.*

*Air disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru heddiw,*

tyrd, Ysbryd Glân, rho dy dân i ni:
rhed, afon gras,
taena gariad ar draws y gwledydd,
dyro dy air
a goleuni a fydd.

Dof o'th flaen di, O Arglwydd sanctaidd,
o'r cysgodion i'th olau euraidd;
gwaed y groes ddaw â mi i'r goleuni,
chwilia fi a glanha fi o'm bryntni:
Grist, clyw fy nghri, goleua fi.

Er mor danbaid yw dy ddisgleirdeb,
ni fydd raid i mi guddio f'wneb;
a phob dydd wrth im syllu a syllu
daw fy mywyd yn ddrych i'th oleuni,
gwir olau gwiw, gair disglair Duw.

GRAHAM KENDRICK, cyfieithiad awdurdodedig: CASI JONES
Hawlfraint © 1987 Make Way Music, P.O. Box 263, Croydon CR9 5AP
Rhyngwladol. Cedwir pob hawl. Cyfieithiad awdurdodedig © 1991 Make Way Music
(Caneuon Ffydd 228, Grym Mawl 1: 107)

11. Anfon Allan a'r Fendith / Sending and Blessing: Rev'd Richards & Rev'd Sissons

Ewch a byddwch fyw fel plant y goleuni.
Oherwydd canfyddir ffrwyth y goleuni ym mhopeth sy'n dda, yn gyfiawn ac yn wir.

*(Go now and live as children of light.
For the fruit of the light is found in all that is good and right and true.)*

Take no part in the unfruitful works of darkness.
Let us wake from sleep and Christ will shine upon us.

*(Na fydded i chi unrhyw ran yng ngweithredoedd diffrwyth y tywyllwch.
Deffrown o'n cwsg a bydd Crist yn llewyrchu arnom.)*

Bydded tangnefedd i'r holl gymuned, a chariad ynghyd â ffydd oddi wrth Dduw Dad a'r Arglwydd Iesu Grist.
Gras fyddo gyda phawb sy'n caru'r Arglwydd Iesu Grist â chariad anfarwol.
Amen. Diolch a fo i Dduw.

*(Peace be to the whole community, and love with faith, from God the Father and the Lord Jesus Christ.
Grace be with all who have an undying love for our Lord Jesus Christ.
Amen. Thanks be to God.)*